

Canllaw i Sŵn a Chynllunio ar gyfer Datblygwyr

Chwefror 2019



Cynnwys

Rhestr Termau	1
1.0 Cyflwyniad	3
1.1 Nod ac Amcanion	3
1.2 Egwyddorion Sylfaenol	3
1.3 Pa bryd y mae angen Adroddiad Acwstig?	4
1.4 Adroddiadau Acwstig	5
2.0 Ffynonellau Sŵn Diwydiannol a Masnachol	6
2.1 Cwmpas	6
2.2 Canllawiau a Meini Prawf	6
2.3 Y wybodaeth y gofynnwyd amdani.	6
2.4 Pwyntiau i'w Hystyried	7
3.0 Safleoedd Adloniant	7
3.1 Cwmpas	7
3.2 Meini Prawf Dylunio	8
3.3 Pwyntiau i'w Hystyried	9
4.0 Chwaraeon a Hamdden	10
4.1 Cwmpas	10
4.2 Ystyriaethau	10
4.3 Codau Ymarfer	10
4.4 Ardaloedd Chwaraeon Amldeffnydd (AChA)	10

5.0	Datblygiadau Newydd Sensitif i Sŵn	10
5.1	Cwmpas	10
5.2	Penderfynu ar Addasrwydd	11
5.3	Meini prawf ar gyfer cael asesiad sŵn	11
5.4	Methodoleg Asesu	11
5.5	Meini prawf dylunio ar gyfer datblygiad sensitif i sŵn	12
5.6	Datblygiadau newydd sy'n sensitif i sŵn ger ffynonellau sŵn diwydiannol/masnachol sydd eisoes yn bodoli	13
6.0	Cynlluniau Trafnidiaeth	13
6.1	Cwmpas	13
6.2	Canllawiau a Meini Prawf	13
7.0	Adeiladu a Safleoedd Agored	14
7.1	Cwmpas	14
	Atodiad 1 – Crynodeb o wybodaeth allweddol o ddogfennau canllaw ar safonau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol	16
	Deunydd Cyfeirio	19

Rhestr Termau

Cyfrwng Newid	Mae datblygwr sy'n cyflwyno defnydd newydd o dir yn gyfrifol am reoli effaith y defnydd newydd hwnnw.
Sŵn Amgylchol	Sŵn ar unrhyw adeg mewn unrhyw sefyllfa, yn cynnwys sŵn o bob ffynhonnell, yn agos ac yn bell.
Sŵn cefndir	Sŵn amgylchol, heb y sŵn o'r ffynhonnell. Mesurir fel arfer fel LA90, T.
dB(A)	Lefel sain yn pwysu "A", wedi'i fesur mewn deciBels. Mae lefelau sain yn pwysu "A" tua'r un peth ag ymateb person i uchder sain.
Ystafell Gyfanheddol	Ystafell y mae modd byw ynnddi, ond nad yw'n gegin, ystafell amlbwrpas, ystafell ymolchi, seler neu gyfleusterau ymolchi yn unig.
L_{A90, T}	Y lefel pwysedd sain y rhagorir arno am 90% o'r cyfnod mesur. Cyfeirir at hyn yn aml fel lefel sŵn cefndir.
L_{AMAX, T}	Y lefel pwysedd sain ar ei fwyaf a gafodd ei recordio yn y cyfnod mesur.
L_{AEQ, T}	Lefel gyfatebol barhaus y pwysedd sain yn pwysu "A". Mae ei gwerth yn un ffigwr sengl, â'r un ynni acwstig â lefel sain sy'n amrywio dros gyfnod mesur penodol. Mae'n aml yn cael ei defnyddio fel mesur o sŵn amgylcheddol.
L_{A10, T}	Aed yn uwch na'r lefel pwysedd sain am 10% o'r cyfnod mesur. Yn aml yn cael ei defnyddio dros gyfnod mesur o 18 awr (06:00- 00:00) fel mesur o gofnodi sŵn traffig ar y ffyrdd.
Awdurdod Cynllunio Lleol	Yr awdurdod cynllunio lleol yw'r Awdurdod Lleol sydd â'r grym cyfreithiol i ymarfer swyddogaethau cynllunio trefol statudol mewn ardal benodol. Yr ACLlau yn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg.

Sŵn	Sŵn diangen.
Hinsawdd Sŵn	Disgrifiad cyffredinol o lefelau sŵn cyfredol mewn ardal benodol.
Datblygiad sy'n Creu Sŵn	Datblygiad sydd â'r potensial o gael effaith negyddol o ran sŵn, ar dderbynleoedd/safleoedd sensitif.
Derbynnydd Sensitif i Sŵn / Annedd Sensitif i Sŵn	Unrhyw annedd, gwesty, hostel, adeilad iechyd, sefydliad addysgol, man addoli neu adloniant neu unrhyw gyfleuster neu ardal arall o ddefnydd uchel, allai fod yn sensitif i sŵn.
Ffynhonnell y Sŵn	Unrhyw eitem neu weithgaredd sy'n achosi sŵn.
Lefel Graddio	Lefel sŵn sy'n cynnwys cywiriad o natur y sŵn pan gaiff ei asesu gan BS4142: 2014.
Seinwedd	Yr amgylchedd acwstig fel y'i clywir neu y'i profir, a'i/ neu ei ddeall gan unigolyn neu bobl, mewn cyd-destun. (Diffiniad ISO)
Tonyddiaeth	Nodwedd o sŵn sydd ag ansawdd arbennig yw tonyddiaeth. Fe'i clywir fel arfer fel swnian, sgrech neu chwiban.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Nod ac Amcanion

- 1.1.1 Nod y ddogfen hon yw rhoi mwy o sicrwydd i ymgeiswyr sy'n gwneud cais cynllunio lle gall sŵn fod yn broblem.
- 1.1.2 Er mwyn cyflawni'r nod hwn mae'r ddogfen hon yn ceisio rhoi cyngor i asiantau ac ymgynghorwyr ar y canlynol:
 - Pryd y gallai fod angen Asesiad Effaith Sŵn:
 - Pa safonau sydd angen eu cymhwyso: a
 - Beth fydd y lefelau derbyniol o sŵn.
- 1.1.3 Mae'r ddogfen hon yn ceisio rhoi polisi cynllunio cyfredol ar waith a chyflwyno dull ymarferol, ond dogfen yn rhoi cyngor yn unig ydyw.
- 1.1.4 Ni fydd y ddogfen hon yn cynnwys pob dewis posib. Felly, awgrymir bod yr ymgeisydd neu eu cynrychiolwyr yn cael trafodaeth Cyn Cyflwyno Cais gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 1.1.5 Y bwriad yw bod y ddogfen hon yn cael ei diweddarau o dro i dro fel bod dealltwriaeth a pholisïau yn datblygu.

1.2 Egwyddorion Sylfaenol

Dyluniad Acwstig Da

- 1.2.1 Dywedir bod "Atal yn well na gwellhad"¹. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ymdrin â sŵn, pan all lleihau lefelau sŵn yn y ffynhonnell ostwng yn sylweddol y gost o liniaru neu hyd yn oed wneud project annichonadwy yn hyfyw.
- 1.2.2 O gofio hyn, argymhellir i ymgeiswyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth ddylunio eu cynlluniau, wedi'u rhestru yn ôl blaenoriaeth^{2 3}
 - Ydi hi'n angenrheidiol bod sŵn yn cael ei greu fel rhan o'r datblygiad?
Oes modd tawelu ffynhonnell y sŵn?
Oes modd symud ffynhonnell y sŵn i leoliad sy'n achosi llai o aflonyddwch?
 - A ellir ymestyn y pellter rhwng ffynhonnell y sŵn a'r derbynnnydd sy'n sensitif i sŵn, i'r mwyafswm posib?

¹ Desiderius Erasmus – 1466 – 1536

² Addaswyd o: Professional Practice Guidance on Planning and Noise – Supplementary Document 2 – Good Acoustic Design – ar gael yn <http://www.ioa.org.uk/sites/default/files/14720%20ProPG%20Supplementary%202.pdf>

³ Mae'r egwyddorion hyn yr un mor berthnasol i sŵn adeiladu neu sŵn dros dro arall yn ogystal â sŵn gweithredu.

- A ellir defnyddio strwythurau sy'n bodoli eisoes, neu nodweddion eraill o'r tir i rwystro llwybr y sŵn o'i ffynhonnell i dderbynwyr sŵn?
- A ellir gosod rhwystrau i rwystro llwybr y sŵn, o ffynonellau sŵn i dderbynwyr sŵn?
- A ellir newid patrwm y cynllun i rwystro sŵn rhag pasio ar draws y safle;
- A ellir gosod adeiladau ar y safle mewn ffordd fydd yn gwarchod ystafelloedd sensitif i sŵn, rhag gormod o sŵn?
- A ellir defnyddio'r amlen adeiladau i ostwng sŵn i lefelau derbyniol y tu fewn i'r adeiladau arfaethedig?

1.3 Pa bryd y mae angen Adroddiad Acwstig?⁴

1.3.1 Bydd yn rhaid cael adroddiadau acwstig⁵ os yw'r datblygiad arfaethedig yn sensitif o ran sŵn, ac yn agos at unrhyw ffynhonnell sŵn sydd eisoes yn bodoli megis:

- Trafnidiaeth fel priffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr neu borthladdoedd;
- Safleoedd masnachol;
- Safleoedd diwydiannol; neu
- Safleoedd pwysig yn ddiwylliannol

1.3.2 Yn ychwanegol, bydd angen adroddiadau acwstig os yw'r datblygiad arfaethedig yn creu sŵn ac yn agos at dderbynyddion sensitif o ran sŵn sydd eisoes yn bodoli, neu'n agos at safleoedd sy'n creu sŵn sydd eisoes yn bodoli.

1.3.3 Mae datblygiadau sy'n creu sŵn yn cynnwys, ond nid wedi'u cyfyngu i:

- Trafnidiaeth fel priffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr neu borthladdoedd;
- Safleoedd Adeiladu sy'n fawr, neu y mae disgwyl iddyn nhw barhau am sawl mis;
- Safleoedd diwydiannol ac unrhyw waith cysylltiedig;
- Safleoedd Adloniant ac unrhyw offer cysylltiedig, e.e. cerddoriaeth uchel, unedau aerdymheru;
- Safleoedd tyllu am fwynau;
- Ysgolion;
- Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden Awyr Agored, gan gynnwys Ardaloedd Chwaraeon Amldefnydd, Saethu Colomennod Clai, Parciau Sglefrio, ardaloedd awyrennau ffug a beicio modur oddi ar y ffordd.
- Safleoedd Gwastraff;
- Tyrbinau Gwynt;

⁴ Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â p'un a oes angen adroddiad acwstig, dylid cael cyngor gan arbenigwr addas neu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

⁵ Gweler paragraff 1.4 am ragor o fanylion.

1.3.4 Bydd angen adroddiadau acwstig os yw'r datblygiad o fewn, neu'n agos at ardal flaenoriaeth o ran cynllunio gweithredu ar sŵn.⁶

1.4 Adroddiadau Acwstig

1.4.1 Mewn rhai amgylchiadau⁷, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gynnwys adroddiad acwstig gyda'u cais cynllunio. Mae'r adran hon yn amlinellu beth sydd i'w ddisgwyl mewn adroddiad acwstig.

1.4.2 Mae'n rhaid i weithiwr proffesiynol sy'n aelod o'r Institute of Acoustics (MIOA) neu'n aelod o'r Association of Noise Consultants (ANC)⁸ ysgrifennu'r adroddiad acwstig, neu ei gymeradwyo.

1.4.3 Dylai'r adroddiad acwstig gynnwys y canlynol:

- Manylion y datblygiad arfaethedig, gan gynnwys manylion am ei agosrwydd i ardaloedd blaenoriaeth o ran cynllunio gweithredu ar sŵn, ardaloedd tawel, ardaloedd cadwraeth, gerddi hanesyddol, parciau a thirweddau;
- Manylion y defnydd o dir cyfagos, yn enwedig unrhyw ffynonellau o sŵn fel busnesau lleol neu unedau diwydiannol. Dylai'r manylion hyn gynnwys y math o waith a'i amser;
- Manylion yr offer sy'n cael ei ddefnyddio yn yr asesiad⁹;
- Manylion y fethodoleg a ddefnyddir, a ddylai gynnwys cyfeiriad at ganllawiau cynllunio priodol, Safonau Prydeinig priodol ac at y ddogfen hon, pan fo'n briodol;
- Manylion yr holl ragdybiaethau;
- Manylion canlyniadau'r asesiad; a
- Manylion unrhyw fesurau lliniaru a argymhellir a fyddai'n gwneud effeithiau'r sŵn yn dderbyniol¹⁰

1.4.4 Pan fo effaith y sŵn yn sylweddol ac/neu mae effeithiolrwydd y camau lliniaru yn aneglur, efallai y bydd angen monitro cyn cwblhau er mwyn dangos bod unrhyw gamau lliniaru a argymhellir yn gweithio fel a fwriadwyd¹¹.

⁶ Gellir gweld mapiau sŵn ac ardaloedd rhoi blaenoriaeth i gynllunio gweithredu ar sŵn yn <http://lle.gov.wales/map>

⁷ Gweler adran 1.3 uchod.

⁸ Gellir dod o hyd i Acwstegwyr Cymwys yn www.ioa.org.uk neu www.association-of-noise-consultants.co.uk/.

⁹ Os yw'r asesiad yn golygu cynnal arolwg sŵn, dylai'r arolwg gael ei gynnal gan fesurydd lefel sŵn Dosbarth 1 fel y'i diffinnir gan BS EN 61672 – 1; 2003.

¹⁰ Dylid dangos unrhyw fesurau lliniaru a argymhellir yn fanwl ar unrhyw luniau a gyflwynir i gefnogi cais cynllunio.

¹¹ Dylid cytuno ar faes unrhyw fonitro sy'n digwydd o ganlyniad, yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

2.0 Ffynonellau Sŵn Diwydiannol a Masnachol

2.1 Cwmpas

2.1.1 Mae unrhyw ddatblygiadau sy'n creu sŵn ac sy'n ddiwydiannol a/neu'n fasnachol o ran eu natur, yn debygol o ddod o dan gwmpas BS4142: 2014: Dulliau Graddio ac Asesu Sŵn Diwydiannol a Masnachol. (Gweler Atodiad 1 am enghreifftiau o safleoedd sydd â'u safonau eu hunain)

2.2 Canllawiau a Meini Prawf

2.2.1 Yn unol ag egwyddorion Dyluniad Acwstig Da a grybwyllwyd ym mharagraff 1.2.2 uchod, man dechrau unrhyw ddatblygiad yw lleihau sŵn lle bo hynny'n bosibl.

2.2.2 Os yw hi'n anochel bod y datblygiad yn achosi sŵn yna fe ddylid rhoi lefel raddio o ddim mwy na 10dB yn is na'r lefel sŵn cefndirol, yn unol ag egwyddorion BS4142:2014.

2.2.3 Pan fo lefelau'r sŵn cefndirol yn isel iawn (h.y. yn is na 30dB LA90), neu bod y technegau gorau sydd ar gael yn cael eu cymhwyso, fel yr amlinellir i liniaru'r sŵn, yna gellir gosod lefel raddio mwy goddefgar ar bob achos yn unigol. Mae'n ofynnol trafod unrhyw amrywiad ar y safiad safonol o ddim mwy na 10dB yn is na'r sŵn cefndirol gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chael ei gymeradwyaeth.

2.3 Y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

2.3.1 Yn gyffredinol, os yw datblygiad yn debyg o gyflwyno ffynhonnell newydd o sŵn a all effeithio ar dderbynwyr gerllaw sy'n sensitif i sŵn, mae'n debygol y bydd angen adroddiad acwstig llawn i gyd-fynd â'r cais. Gall methiant i wneud hynny arwain at oedi a/neu wrthod y cais ar sail gwybodaeth annigonol.

2.3.2 Wedi dweud hynny, mae rhai achosion er enghraifft datblygiadau ar raddfa fechan fel system alldynnu unigol mewn ardal sydd eisoes yn swnllyd, pan na fyddai angen adroddiad acwstig. Er mwyn helpu'r ACLL i benderfynu p'un a oes angen adroddiad acwstig llawn, argymhellir y dylid darparu'r wybodaeth ganlynol cyn cyflwyno'r cais:

- Y math o offer fydd yn cael ei osod;
- Yr oriau a'r dyddiau y bwriedir i'r safle fod yn weithredol, a'r oriau a'r dyddiau y bydd yr offer sy'n gwneud sŵn yn gweithredu;

- Lefel Pŵer Sain (LW) neu Lefel Pwysedd Sain (LP) yr offer sy'n gwneud sŵn, o bellter penodol, mewn desibel (dB) (gellir cael hyn o fanylion y gwneuthurwr);
- Manylion ble rhoddir yr offer, gan gynnwys p'un a fydd dan do neu yn yr awyr agored Dylai hyn fod ar gynllun wrth raddfa 1:50;
- Manylion unrhyw fesurau a roddir yn eu lle i leihau effaith y sŵn ar gymdogion¹²; a
- Manylion unrhyw dderbynyddion sensitif i sŵn, gan gynnwys pa mor bell ydyn nhw

2.3.3 Waeth bynnag pa mor sylfaenol neu fanwl y mae angen i'r adroddiad acwstig fod, mae'n bwysig iawn bod y data yn wydn ac yn realistig.

2.4 Pwyntiau i'w Hystyried

- 2.4.1 Wrth ddefnyddio dulliau rhagweld a/modelu i asesu effaith tebygol ffynonellau diwydiannol/masnachol newydd ar leoliadau sy'n sensitif i sŵn, dylid trafod y dulliau yn fanwl, a dylid esbonio'n eglur unrhyw ddata amrwd, yr ansicrwydd a gysylltir â'r feddalwedd, yr amcangyfrifon ac unrhyw ragdybiaethau a ddefnyddir.
- 2.4.2 Pan ddefnyddir rhagfynegiadau a/neu ddulliau modelu mewn adroddiad acwstig llawn, dylai'r canlyniadau ei gwneud hi'n glir p'un a ydynt yn cyfeirio at lefelau sŵn neu lefelau graddio, a'u cyflwyno fel bod y canlyniadau sydd heb eu trin a'r rhai sydd wedi eu gostwng yn cael eu dangos.
- 2.4.3 Pan fydd rhagfynegiadau a/neu ddulliau modelu yn cael eu defnyddio mewn adroddiadau acwstig llawn, dylai'r derbynyddion a ddefnyddir yn y modelu gyfateb i'r lleoliadau monitro cefndir. Os nad ydynt, dylid esbonio pam yn eglur.
- 2.4.4 Wrth asesu yn unol â BS4142: 2014, mae disgwyl adroddiad sy'n cynnwys dealltwriaeth fanwl o'r safle, yr oriau gweithredu, ystyriaeth lwyr o'r gweithgareddau swmllyd ar y safle a natur y gweithgareddau hynny. Dylid hefyd ystyried a chynnwys ansicrwydd yn y canlyniadau.

3.0 Safleoedd Adloniant

3.1 Cwmpas

- 3.1.1 Unrhyw sŵn o safleoedd a ddefnyddir ar gyfer adloniant cyhoeddus gan gynnwys clybiau, tafarndai, bariau, tai bwyta, clybiau preifat ac unrhyw

¹² Os nad yw'r mesurau a awgrymwyd i leihau effaith y sŵn ar gymdogion yn debygol o fod o fudd mawr, neu'n debygol o fod yn helaeth neu'n gostus, argymhellir yn gryf bod adroddiad acwstig yn cael ei baratoi, fel y disgrifir yn adran 1.4 uchod.

ddefnydd arall hamdden fel lleoliadau priodas a chanolfannau cynadledda.

- 3.1.2 Bydd angen Trwydded Safle hefyd ar y rhan fwyaf o safleoedd o'r math hwn. Argymhellir bod yr ymgeisydd yn cysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod y defnydd terfynol o'r safle a gynigir yn cydymffurfio â'r polisi trwyddedu lleol.
- 3.1.3 Dylid nodi bod posibilrwydd o ddyblygu rhwng y polisiau Cynllunio a Thrwyddedu, ond nid yw'r pwyllgorau trwyddedu na'r pwyllgorau cynllunio yn rhwym wrth benderfyniadau ei gilydd.
- 3.1.4 O ganlyniad, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod y safle'n cydymffurfio â'r ddwy restr o reolau, fel bod y safle er enghraifft ddim yn gweithredu y tu hwnt i'r oriau a ganiateir yn nhermau Cynllunio na Thrwyddedu, a all arwain at gamau gorfodi.

3.2 Meini Prawf Dylunio

- 3.2.1 Mae gan bobl sy'n byw drws nesaf i safleoedd adloniant yr hawl i fwynhau safonau rhesymol o amwynder. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r ACLI gael ei fodloni bod yr ymgeisydd wedi ystyried y mater o sŵn yn briodol.
- 3.2.2 Mae'n debygol y bydd angen adroddiad acwstig llawn i gyd-fynd â'r cais am y mathau yma o safle. Gallai methiant i wneud hynny arwain at oedi cymeradwyo'r cais a/neu wrthod y cais ar sail gwybodaeth annigonol.
- 3.2.3 Gall y manylder sydd ei angen mewn adroddiad acwstig llawn ddibynnu ar natur y defnydd arfaethedig a'r agosrwydd at safleoedd sy'n sensitif i sŵn. O ganlyniad, argymhellir yn gryf ymgynghori'n gynnar gyda'r ACLI.
- 3.2.4 Er mwyn gallu bodloni'r ACLI bod y datblygiad yn dderbyniol, dylai'r ymgeisydd fod yn gallu dangos, cyn y penderfyniad, bod modd bodloni'r meini prawf canlynol:
 - Os mai'r cynllun yw defnyddio'r safle arfaethedig yn gyson, dylai unrhyw sain sy'n cael ei ymhelaethu (gan gynnwys cerddoriaeth a siarad) gael ei glywed cyn lleied â phosibl mewn adeiladau gerllaw sy'n sensitif i sŵn, â chanddynt un neu fwy o ffenestri yn agored;
 - Ni ddylai pobl sy'n byw mewn anheddau cyfagos fod yn gallu clywed bron dim sŵn arall sy'n gysylltiedig â'r safle, gan gynnwys sŵn gan y cwsmeriaid, y tu fewn i'w cartrefi;
 - Os yw adroddiad acwstig llawn yn dod i'r casgliad nad oes modd cyflawni anhyglywedd, hyd yn oed ar ôl cyflwyno nodweddion dylunio fel cynteddau acwstig, gellir ystyried bod y datblygiad yn dderbyniol os oes modd cyfyngu ar yr oriau y mae'n weithredol, neu ar ba mor aml y mae'n cael ei ddefnyddio, er mwyn lleihau'r effaith ar dderbynyddion cyfagos sy'n sensitif i sŵn.

3.3 Pwyntiau i'w Hystyried

- 3.3.1 Disgwylir bod safleoedd yn cael eu dylunio a'u hadeiladu gyda digon o inswleiddio yn erbyn sŵn, fel na ellir clywed dim byd mewn anheddau gerllaw. Yr uchaf fydd y gerddoriaeth, y mwyaf gwydn y bydd angen i'r inswleiddio fod.
- 3.3.2 Os nad yw'n bosibl gwella'r inswleiddio sŵn i'r lefel ofynnol, mae'n bosib y bydd defnyddio dyfeisiau electronig fel cyfyngwyr sŵn yn dderbyniol fel ffordd o reoli ffynhonnell y sŵn mewn amgylchiadau eithriadol.
- 3.3.3 Mewn sefyllfaoedd pan fo'r datblygiad arfaethedig wedi'i gysylltu'n strwythurol â dderbynyddion sensitif i sŵn, dylid rhoi sylw arbennig i sŵn a chryndod sy'n cael eu cludo drwy strwythurau, a dylid datgan yn glir unrhyw gamau lliniaru sydd eu hangen i atal y trosglwyddiad¹³.
- 3.3.4 Efallai y bydd angen cau drysau a ffenestri pan fydd y safle'n gweithredu, os oes sŵn yn dod drwyddynt. O ganlyniad, mae'n bosib y bydd angen ystyried ffyrdd amgen o awyru, ynghyd â chyflwyno cyntedd acwstig. Rhaid cyflwyno'r manylion hyn i'w cymeradwyo, ynghyd â'r cais.
- 3.3.5 Bydd rhaid ystyried ardaloedd eistedd ac ardaloedd ysmygu allanol o ran pa mor agos ydynt at dderbynyddion sensitif i sŵn. Efallai bydd yn rhaid cyfyngu ar yr oriau y mae'r ardaloedd hyn yn cael eu defnyddio, os nad oes modd rheoli'r sŵn posib mewn unrhyw ffordd arall.
- 3.3.6 Bydd angen ystyried y sŵn sy'n cael ei achosi gan bobl yn cyrraedd ac yn gadael y safle, yn arbennig os yw hyn yn debygol o ddigwydd yn hwyr y nos. Dylai ffactorau fydd yn effeithio ar y sŵn hwn gynnwys manau lle mae pobl yn cronni, cysgodfeydd smygu ac agosrwydd safle tacsis.
- 3.3.7 Dylid tynnu sylw at sut a phryd bydd gweithgareddau atodol fel danfon nwyddau, casglu gwastraff ac ailgylchu poteli yn cael eu cyflawni, ynghyd â'r oriau tebygol y bydd hyn yn digwydd, ac asesiad o'r effaith tebygol ar dderbynydd sensitif i sŵn cyfagos.
- 3.3.8 Os yw'n angenrheidiol i gyfyngu ar oriau gweithredu unrhyw weithgaredd o fewn y safle, gall fod angen ffurfioli'r trefniadau hyn mewn Cynllun Rheoli Sŵn, y dylid ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan yr ACLL cyn iddo gael ei benderfynu.
- 3.3.9 Bydd yn rhaid ystyried a dylunio lleoliad a defnydd systemau echdynnu cegin, unedau aerdymheru ac oergelloedd, yn unol â gofynion Adran 2 uchod. Dylid cyflwyno manylion terfynol y systemau hyn i'w cymeradwyo, gyda'r cais.

¹³ Mae'n bosib bod y lefel hon o liniaru yn fwy beichus na gofynion Rhan E y Rheoliadau Adeiladu.

4.0 Chwaraeon a Hamdden

4.1 Cwmpas

4.1.1 Unrhyw sŵn sy'n deillio o weithgareddau chwaraeon neu hamdden gan gynnwys saethu colomennod clai, beicio modur oddiar y ffordd, awyrennau ffug, ardal chwaraeon aml-ddefnydd, safleoedd saethu laser, canolfannau pledu paent a pharciau sglefr-fyrddio.

4.2 Ystyriaethau

- 4.2.1 Mae'n bosib y bydd mwy o sŵn yn dderbyniol o'r math hwn o ddatblygiad nag o ddatblygiadau eraill mwy parhaol. O'r herwydd, dylid cyflwyno manylion eglur am y defnydd o'r datblygiad, o ran oriau agor a pha mor aml fydd pobl yn mynd yno, yn ychwanegol at y lefelau sŵn disgwyliedig yn y derbynydd sensitif i sŵn agosaf, gyda'r cais cynllunio.
- 4.2.2 Mae'r math hwn o weithgaredd yn aml yn debygol o ddigwydd mewn ardaloedd maesdrefol neu wledig lle mae'r lefelau sŵn cefndir yn arbennig o isel; o ganlyniad, gall eu heffaith ar dderbynyddion sensitif i sŵn cyfagos fod yn sylweddol. O gofio hyn, dylid cymryd gofal yn gynnar i ddewis y safle cywir.

4.3 Codau Ymarfer

- 4.3.1 Mae gan rai weithgareddau hamdden Godau Ymarfer penodol wedi'u hanelu at leihau sŵn. Mae'n rhaid i unrhyw adroddiad acwstig ystyried unrhyw God Ymarfer perthnasol.
- 4.3.2 Rhestrir y codau ymarfer cyfredol yn Atodiad 1.

4.4 Ardaloedd Chwaraeon Amldefnydd (AChA)

- 4.4.1 Mae AChA fel arfer yn cael eu lleoli'n agos at dderbynyddion sensitif i sŵn ac felly â'r potensial i effeithio'n sylweddol o ran sŵn.
- 4.4.2 O'r herwydd, bydd angen adroddiad acwstig llawn, a rhaid datgan yn glir pa gamau lliniaru fydd yn angenrheidiol, a faint o amser gymer hi i'w gweithredu a'u cynnal a'u cadw.

5.0 Datblygiadau Newydd Sensitif i Sŵn

5.1 Cwmpas

5.1.1 Unrhyw aneddu preswyl newydd neu wedi'u haddasu, ysgolion, ysbytai, swyddfeydd, manau addoli neu unrhyw ddefnydd arall ar dir lle gall sŵn gael effaith niweidiol.

5.2 Penderfynu ar Addasrwydd

- 5.2.1 Wrth asesu p'un a yw safle yn addas at y defnydd arfaethedig, dylai'r ymgeisydd gofio egwyddorion Dylunio Acwstig Da, a ddisgrifir yn adran 1.2.2 uchod. O'r herwydd, argymhellir yn gryf bod adroddiad acwstig llawn yn cael ei baratoi yn gynnar er mwyn helpu i benderfynu a yw'r safle yn addas, faint o adeiladau fydd yn cael eu codi a'u math, ynghyd â chynllun a dyluniad terfynol y safle.
- 5.2.2 Yn ychwanegol, cyn penderfynu ar leoliad datblygiadau sensitif i sŵn newydd dylid ystyried y mapiau sŵn sydd wedi'u creu ar gyfer y Cyfarwyddyd Sŵn Amgylcheddol. Gellir gweld lefelau sŵn arwyddol, Ardaloedd Blaenoriaeth ac Ardaloedd Tawel, ar wefan Llywodraeth Cymru.¹⁴ Os yw datblygiad arfaethedig mewn Ardal Flaenoriaeth neu Dawel, neu'n agos atynt, neu o fewn unrhyw amlinell sŵn a nodir gan y mapio, yna mae'n rhaid cael adroddiad acwstig.

5.3 Meini prawf ar gyfer cael asesiad sŵn

- 5.3.1 Fel y trafodwyd yn 1.3 uchod, mae'n debygol iawn y bydd angen i ddatblygiadau arfaethedig sy'n sensitif i sŵn, fydd yn cael eu lleoli'n agos at ffynhonnellau sŵn sydd eisoes yn bodoli, gael adroddiad acwstig llawn.
- 5.3.2 Mae'n bwysig nodi na fydd rhaid i bob datblygiad yn agos at bob ffordd gael adroddiad acwstig llawn. Bydd angen i ddatblygiadau a fydd yn agored i lefel sŵn sy'n gydradd neu'n fwy na 50dB LAEQ yn ystod y dydd a 40dB LAEQ yn ystod y nos wrth ffin y safle, gael adroddiad acwstig llawn.¹⁵

5.4 Methodoleg Asesu

- 5.4.1 Wrth asesu sŵn sy'n effeithio ar ddatblygiadau sy'n sensitif i sŵn, mae'n bosib y bydd rhaid asesu gwahanol ffynonellau o sŵn, weithiau ar yr un adeg. Bydd gan bob ffynhonnell sŵn ei methodoleg ei hun, a drafodir isod ac yn Atodiad 1.
- 5.4.2 Bydd rhaid i asesiadau o'r sŵn gan draffig ffyrdd gydymffurfio â methodolegau'r ddogfen Cyfrifo Sŵn Traffig Ffyrdd (CSTFf)
- 5.4.3 Ar gyfer asesiadau o'r sŵn gan reilffyrdd bydd angen cydymffurfio â methodolegau'r ddogfen Cyfrifo Sŵn Rheilffyrdd (CSRh)
- 5.4.4 Os nad oes methodoleg benodol yn ymwneud â'r ffynhonnell o sŵn sy'n effeithio ar y safle arfaethedig, disgwylid y dilynnir Canllawiau Sŵn gyda'r Nos Sefydliad Iechyd y Byd- Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn, a gofynion BS8233: 2014.

¹⁴ <http://lle.gov.wales/map>

¹⁵ Dewiswyd y gwerthoedd hyn oherwydd dyma'r lefelau sŵn allanol uchaf a ystyrir yn dderbyniol cyn i fesurau lliniarol fod yn angenrheidiol yn ôl BS8233:2014.

- 5.4.5 Pan fo angen adroddiad acwstig llawn, bydd disgwyl monitro sŵn gyda'r nos, oni bai bod tystiolaeth gref sy'n dangos bod yr amcangyfrif o'r lefelau sŵn gyda'r nos yn wydn ac yn gywir.
- 5.4.6 Efallai byddai defnyddio meddalwedd modelu priodol yn addas os gellir dangos bod y model wedi'i raddnodi a'i adeiladu'n briodol.
- 5.4.7 Rhaid i unrhyw rhagfynegiadau a/neu amcangyfrifon a wneir i asesu lefelau sŵn ar flaen unrhyw adeilad ystyried y lefelau sŵn ar bob llawr ohono.

5.5 Meini prawf dylunio ar gyfer datblygiad sensitif i sŵn

- 5.5.1 Pan fo adroddiad acwstig llawn wedi dangos bod ystafelloedd cyfanheddol ac/neu ardaloedd y tu allan yn debygol o arwain at lefelau annerbyniol o sŵn, bydd disgwyl y bydd gofyn am fesurau lliniaru.
- 5.5.2 Bydd disgwyl bod datblygiadau yn cyflawni'r meini prawf sŵn "da" fel y disgrifir gan BS8233:2014 oni bai bod amgylchiadau eithriadol pam na ellir cyflawni'r safon hwn. Penderfynir ar bob achos yn unigol.
- 5.5.3 Y disgwyl yw y bydd datblygiadau'n cael eu dylunio fel bod y lefelau sŵn mewnol yn "dda" mewn ystafelloedd y gellir byw ynddynt, gyda'r ffenestri yn rhannol ar agor. Yn achos datblygiadau sydd wedi'u lleoli lle mae sŵn yn deillio o drafnidiaeth/cludiant, gellir dylunio adeilad heb ffenestri/â ffenestri na ellir eu hagor er mwyn bodloni'r targed dylunio, ar yr amod bod ffyrdd amgen o awyru yn cael ei nodi sy'n cydymffurfio â Rhan F y Rheoliadau Adeiladu, a'i gyflwyno, gyda manylion, o fewn y cais.
- 5.5.4 Yn ychwanegol at yr uchod, mae rhai pwyntiau penodol i'w hystyried:
- O fewn datblygiad, efallai bydd rhaid gwahaniaethau rhwng y defnydd sy'n achosi sŵn a'r defnydd sy'n sensitif i sŵn, er enghraifft osgoi rhoi maes chwarae plant nesaf at lety i'r henoed;
 - Mae lleoli adeiladau yn ofalus yn gallu lleihau effaith sŵn, er enghraifft drwy osgoi rhoi ffenestri ystafelloedd lle mae pobl yn byw, yn gyfochrog â ffynonellau sŵn;
 - Mae adeiladau sy'n wynebu i un cyfeiriad yn gallu bod yn ddefnyddiol o ran lliniaru effeithiau sŵn;
 - Gall defnyddio strwythurau nad ydynt yn sensitif i sŵn, fel garejis, muriau, ffensys neu fyndiau acwstig fel ffordd o sgrinio yn erbyn sŵn, lliniaru'r effaith ar ystafelloedd cyfanheddol; a
 - Gall cynllun mewnol aneddau helpu i leihau effaith sŵn drwy ddefnyddio ystafelloedd nad ydynt yn sensitif i sŵn fel clustog rhwng ffynonellau sŵn ac ystafelloedd sy'n sensitif i sŵn;
 - Dylid osgoi gosod ystafelloedd sy'n creu sŵn uwchben neu islaw ystafelloedd sy'n sensitif i sŵn, lle bo hynny'n bosibl, a dylid cyfiawnhau gwneud hynny os nad yw'n bosib.

5.6 Datblygiadau newydd sy'n sensitif i sŵn ger ffynonellau sŵn diwydiannol/masnachol sydd eisoes yn bodoli

- 5.6.1 Yn achos datblygiadau newydd sy'n sensitif i sŵn, sy'n agos at ffynonellau sŵn diwydiannol a/neu fasnachol, disgwylir y bydd yr egwyddor¹⁶ Asiant Newid yn cael ei mabwysiadu.
- 5.6.2 Os mai dyma'r achos, disgwylir adroddiad acwstig llawn sy'n archwilio effaith y ffynhonnell sŵn ddiwydiannol a/neu fasnachol yn yr ardal. Disgwylir i'r adroddiad acwstig hefyd argymhell y mesurau lliniaru a fydd yn debygol o wneud effaith y sŵn yn dderbyniol.
- 5.6.3 Gallai methiant i gyflwyno adroddiad acwstig llawn arwain at oedi a/neu beryglu bod y cais yn cael ei wrthod oherwydd gwybodaeth annigonol.

6.0 Cynlluniau Trafnidiaeth

6.1 Cwmpas

- 6.1.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â symudiadau cerbydau ychwanegol yn debygol o ddeillio o ddatblygiadau newydd fel safleoedd masnachol neu ddiwydiannol newydd, safleoedd adloniant, datblygiadau tai ac ati. Mae'r adran hon hefyd yn ymwneud â chynlluniau trafndiaeth sy'n sefyll ar eu pen eu hunain, fel mesurau arafu traffig newydd a/neu gysylltiadau ffyrdd newydd.

6.2 Canllawiau a Meini Prawf

- 6.2.1 Mae Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd yr Adran Drafndiaeth (DMRB) yn amlinellu dull o werthuso effaith tymor byr a thymor hir newidiadau'r llif traffig 18 awr ar dderbynyddion sensitif i sŵn. Mae hefyd yn amlinellu'r meini prawf i'w hystyried o ran sŵn.
- 6.2.2 Yn achos cynlluniau fydd yn gweld cynnydd yn swm y traffig, y disgwyl yw y bydd adroddiad acwstig yn cael ei baratoi a'i gyflwyno gyda'r cais.
- 6.2.3 Disgwylir y bydd adroddiad acwstig llawn sy'n archwilio'r maes hwn yn ystyried y canlynol:
- Unrhyw eiddo sy'n profi cynnydd o 1dB LA10, 18 hour ar ôl iddo gael ei gwblhau, neu yn y dyfodol, o ganlyniad i'r datblygiad a datblygiadau eraill sydd wedi cael cydsyniad yn yr ardal;

¹⁶ Mae paragraff 6.7.5 Polisi Cynllunio Cymru – Fersiwn 10 yn datgan hyn:

“Yn ôl yr egwyddor cyfrwng newid, mae busnes neu unigolyn sy'n gyfrifol am gyflwyno newid yn gyfrifol am reoli'r newid hwnnw. Yn ymarferol, er enghraifft, mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ddatblygwr sicrau bod atebion sy'n mynd i'r afael ag ansawdd aer neu sŵn o seilwaith, busnesau neu leoliadau sydd eisoes yn bodoli, yn cael eu canfod a'u gweithredu er mwyn sicrau bod datblygiad yn dderbyniol.”

- Unrhyw eiddo sy'n profi cynnydd o 1dB Lnight, outside ar ôl iddo gael ei gwblhau, neu yn y dyfodol, o ganlyniad i'r datblygiad a datblygiadau eraill sydd wedi cael cydsyniad yn yr ardal;
- Unrhyw fesurau lliniaru sy'n briodol i leihau effaith y cynnydd mewn sŵn traffig.

6.2.4 Gallai methiant i gyflwyno adroddiad acwstig llawn gyda'r cais arwain at oedi a/neu beryglu bod y cais yn cael ei wrthod oherwydd gwybodaeth annigonol.

7.0 Adeiladu a Safleoedd Agored

7.1 Cwmpas

7.1.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â sŵn a chryndod o Safleoedd Adeiladu ac Agored.

7.2 Canllawiau a Meini Prawf

7.2.1 Mae'r sŵn a'r cryndod o safleoedd adeiladu â'r gallu i achosi effaith sylweddol ar dderbynyddion sensitif i sŵn yn yr ardal.

7.2.2 Mae'r Safon Prydeinig BS5228-1:2009+A1:2014 a BS5228-2:2009+A1:2014 yn cynnig methodoleg ar gyfer asesu sŵn a chryndod o safleoedd adeiladu a salleoedd agored pan nad oes canllawiau penodol i'r diwydiant ar gael.

7.2.3 Yn achos safleoedd adeiladu sy'n debygol o fod yn fwy nag "ar raddfa fach", y disgwyl yw y bydd adroddiad acwstig llawn yn cael ei gynhyrchu sy'n ystyried effaith tebygol y sŵn a'r cryndod o'r safle ar dderbynyddion sensitif i sŵn cyfagos.

7.2.4 Disgwylir y bydd yr adroddiad acwstig yn manylu ar y canlynol:

- Manylion unrhyw waith cam wrth gam;
- Manylion unrhyw offer neu beirannau a gaiff eu defnyddio, gan gynnwys y lefelau sŵn disgwyliedig yn ardal y derbynyddion sensitif i sŵn agosaf.
- Manylion y fethodoleg a ddefnyddir i benderfynu ar faint effeithiau'r sŵn, fel y disgrifir yn Atodiad E BS5228-1: 2009+A1:2014. Rhaid cytuno ar y fethodoleg gyda'r ACLL o flaen llaw.
- Manylion unrhyw ddyddiau pan fydd lefelau'r sŵn a ddisgwylir ger y derbynyddion sensitif i sŵn agosaf yn cael eu hystyried yn sylweddol pan ddefnyddir dull a ddisgrifir yn Atodiad E BS5228-1: 2009+A1:2014;
- Manylion unrhyw fesurau lliniaru a ddefnyddir i ostwng y sŵn sy'n effeithio ar dderbynyddion sensitif i sŵn cyfagos, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y diwrnodau hynny sy'n cael eu hystyried yn sylweddol drwy ddull a ddefnyddir yn Atodiad E BS5228-1: 2009+A1:2014;

- Manylion unrhyw waith a gynllunir gyda'r nos, gan gynnwys lefel ddisgwyliedig y sŵn wrth y derbynyddion sensitif i sŵn cyfagos, ac unrhyw fesurau lliniaru a defnyddir i leihau effaith y sŵn.

7.2.5 Gallai methiant i gyflwyno adroddiad acwstig llawn gyda'r cais arwain at oedi a/neu beryglu bod y cais yn cael ei wrthod oherwydd gwybodaeth annigonol.

7.2.6 Mae'n bosib y bydd angen i safleoedd adeiladu "ar Raddfa Fach" ystyried effaith tebygol y sŵn a'r cryndod o'r safle ar dderbynyddion sensitif i sŵn cyfagos. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar wefan Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir¹⁷.

¹⁷ <https://www.srs.wales/cy/Environmental-Health/Noise-and-Air-Pollution/Air-quality-and-pollution/Construction-Site-Advice.aspx>

Atodiad 1 – Crynodeb o wybodaeth allweddol o ddogfennau canllaw ar safonau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol

Mae'r dogfennau cenedlaethol a rhyngwladol canlynol yn rhoi rhagor o gyngor a chanllawiau technegol, y dylid cyfeirio atynt wrth wneud eich cais.

Categori datblygiad	Math o Ddatblygiad	Safonau perthnasol (gweler rhestr o gyfeiriadau islaw am ragor o fanylion)	Trothwy sŵn a argymhellir (dB) yn yr eiddo sensitif i sŵn agosaf
Pob math o ddatblygiad	Mae'r safon hon yn berthnasol i bob categori o asesu sŵn ar gyfer unrhyw ddatblygiad	ISO 1996 Rhannau 1, 2 a 3	Dd/B
Safleoedd adeiladu	Pob safle adeiladu	BS5228-1: 2009+A1:2014 BS6472 2008: Rhan 1 a 2 BS7385	Defnyddio dull a ddisgrifiwyd yn Atodiad E BS5228-1: 2009+A1:2014
Safleoedd Adloniant	Clybiau, tafarndai, bariau, canolfannau adloniant a defnydd hamdden araill	Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Lleol perthnasol CY ar Reoli Sŵn o Dafarndai a Chlybiau IOA 2003	Ni fydd modd clywed unrhyw sŵn gaiff ei ymledu (gan gynnwys cerddoriaeth a siarad) o fewn unrhyw dderbynyddion sensitif i sŵn gydag un ffenest neu fwy ar agor neu beidio.
Safleoedd meddygol	Adeiladau newydd neu estyniadau sydd angen caniatâd cynllunio	BS8233:2014 WHO (2009)	Cymhwysu'r lefelau sain amgylchol dan do yn Nhabl 6 BS8233 2014.
Safleoedd ac offer diwydiannol a masnachol	Ffatrioedd, safleoedd diwydiannol, cyfarpar sefydlog, neu ffynonellau o natur diwydiannol mewn safleoedd masnachol	BS4142: 2014 BS8233: 2014 WHO (2009) DMRB Defra: 2005	Dylai lefel graddio'r cyfarpar fod o leiaf 10dB o dan lefelau cefndir sydd eisoes yn bodoli, pan gânt eu mesur yn unol â BS4142 2014. Pan fo lefelau'r sŵn cefndirol yn isel iawn (h.y. yn is na 30dB L _{A90}), neu bod y technegau gorau sydd ar gael yn cael eu cymhwyso i liniaru'r sŵn, yna gellir gosod lefel raddio mwy goddefgar ar bob achos yn unigol, yn unol â thrafodaethau gyda'r ACLI a'u cymeradwyo ganddynt.
Safleoedd mwynol	Pob safle tyllu am fwynau	Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) Cymru 1: Agregau Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn	Yn y dydd (07.00- 19.00): <10dB yn uwch na'r cefndir, hyd at fwyafswm o 55 dB L _{Aeq, 1h} (freefield). Yn y dydd (07.00- 19.00): <67 dB L _{Aeq, 1h} (freefield), hyd at 8 wythnos y flwyddyn. Yn y nos (19.00 – 07.00): 42 dB L _{Aeq, 1h} (freefield).

Categori datblygiad	Math o Ddatblygiad	Safonau perthnasol (gweler rhestr o gyfeiriadau islaw am ragor o fanylion)	Trothwy sŵn a argymhellir (dB) yn yr eiddo sensitif i sŵn agosaf
Datblygiad Preswyl a Chartrefi Gofal Preswyl	Tai, estyniadau a fflatiau newydd ac addasiadau i dai sydd angen caniatâd cynllunio	BS8233:2014 WHO (2009) Dogfen E wedi'i chymeradwyo: 2003	Cymhwyso'r lefelau sain amgylchol dan do yn Nhabl 4 BS8233: 2014. Ardaloedd y tu allan <50dB L _{Aeq, T} , gyda <55dB L _{Aeq, T} o bosib yn dderbyniol mewn amgylcheddau mwy swmlyd. Gallai >55dB L _{Aeq, T} fod yn dderbyniol mewn amgylchiadau eithriadol ar yr amod bod y datblygiad wedi cael ei ddylunio i gyflawni'r lefelau ymarferol isaf. Sylwer: Disgwylir i'r ardaloedd allanol gyflawni <50 dB L _{Aeq, T} . Gellir gwyro o'r gofyniad hwn ymhob achos yn unigol, yn amodol ar drafodaethau gyda'r ACLI a'i gymeradwyo ganddo.
Ysgolion	Adeiladau newydd neu estyniadau/adnewyddu sydd angen caniatâd cynllunio	BB93 (2015)	Cymhwyso Safonau Perfformiad a geir yn Adran 1 BB93 (2015).
Cyfleusterau chwaraeon a hamdden awyr agored	Ardaloedd chwaraeon aml-ddefnydd, caeau pob tywydd, stadia, canolfannau hamdden, saethu colomennod clai, parciau sglefr-fyrddio a beicio modur oddi ar y ffordd	BS 8233:1999 WHO (2009)	Cymhwyso'r Cod Ymarfer penodol i'r gweithgaredd dan sylw Os nad oes Cod Ymarfer addas, cymhwyso'r lefelau sain amgylchol dan do yn Nhabl 4 BS8233: 2014 a <50dB L _{Aeq, T} ar gyfer Ardaloedd y Tu Allan.
Trafnidiaeth	Ffyrdd (ffyrdd newydd a rhai wedi'u gwella)	DMRB CRTN Rheoliadau Inswleiddio Sŵn 1975 (fel y'i diwygiwyd 1988) WHO (2009)	Cymhwyso gofynion y Rheoliadau a chanllaw sŵn nos WHO (NNG) o 40 dB L _{night, outside} .
	Rheilffyrdd (newydd a wedi'u haddasu)	Rheoliadau Inswleiddio Sŵn (Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Cyfeiriedig Eraill) 1996 CRN BS6472 2008: Rhan 1 a 2 BS7385 WHO (2009)	
	Porthladdoedd	BS8233:2014 WHO(2009)	Cymhwyso'r lefelau sŵn amgylchol dan do yn Nhabl 4 BS8233: 2014 a <50dB L _{Aeq, T} ar gyfer Ardaloedd y Tu Allan.
	Meysydd Awyr		

Categori datblygiad	Math o Ddatblygiad	Safonau perthnasol (gweler rhestr o gyfeiriadau islaw am ragor o fanylion)	Trothwy sŵn a argymhellir (dB) yn yr eiddo sensitif i sŵn agosaf
Safleoedd Gwastraff	Pob safle gwastraff, gan gynnwys safleoedd trin dŵr gwastraff	BS 4142:2014 IPPC H3 (Rhan 2)	Dylai lefel graddio'r cyfarpar fod o leiaf 10dB o dan lefelau cefndir sy'n bodoli'n barod, pan gânt eu mesur yn unol â BS4142: 2014. Pan fo lefelau'r sŵn cefndirol yn isel iawn (h.y. yn is na 30dB L _{A90}), neu bod y technegau gorau sydd ar gael yn cael eu cymhwyso i liniaru'r sŵn, yna gellir gosod lefel raddio mwy goddefgar ar bob achos yn unigol, yn unol â thrafodaethau gyda'r ACLI a'u cymeradwyo ganddynt.
Tyrbinau gwynt (DS: oherwydd pryderon am ETSU-R-97 trafodwch y trothwyon priodol gyda'r ACLI cyn gynted â phosib)	Tyrbinau sengl	ETSU-R-97 WHO (2009)	35dB L _{90, 10 mins} (freefield)
	Ffermydd gwynt		Yn y dydd (07.00 – 23.00): <5dB yn uwch na'r cefndir. Yn y dydd (07.00 – 23.00) mewn amgylcheddau sŵn isel (<30 dB L _{90, 10mins} (freefield)): 35dB L _{90, 10mins} (freefield). Yn y nos (23.00 – 07.00): 43dB L _{90, 10mins} (freefield)

Deunydd Cyfeirio

1. ISO 1996 Rhannau 1, 2 & 3- Disgrifiad, mesuriad ac asesiad o sŵn amylgcheddol.
2. BS 5228-1: 2009+A1:2014 – Cod ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a chryndod ar safleoedd adeiladu ac agored – Rhan 1: Sŵn
3. BS 6472: 2008: Rhan 1 a 2 – Canllaw i werthusiad o effaith cryndod ar berson
4. BS 7385 – Canllaw i lefelau difrod o gryndod yn y tir <
5. BS 8233:2014 – Canllaw ar Inswleiddio Sŵn a Lleihau Sŵn o Adeiladau
6. WHO (2009): Sefydliad Iechyd y Byd – Canllawiau sŵn gyda’r nos ar gyfer Ewrop
7. BS 4142:2014 – Dulliau o Raddio ac Asesu Sŵn Diwydiannol a Masnachol
8. DMRB: Design Manual for Roads & Bridges, Cyfrol 11, Adran 3, Rhan 7, HD 213/11 – diwygiad 1 (Tachwedd 2011)
9. Defra: 2005. Guidance on the Control of Odour and Noise from Commercial Kitchen Exhaust Systems.
10. Dogfen wedi’i Chymeradwyo E- Resistance to the Passage of Sound (2003)
11. BB93 – Dyluniad Acwstig Ysgolion: Safonau Perfformiad (2015)
12. Rheoleiddio Inswleiddio Sŵn 1975 (fel y’i diwygiwyd 1988)
13. Rheoliadau Inswleiddio Sŵn (Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Cyfeiriedig Eraill) 1996
14. IPPC H3 (Rhan 2): Nodyn Canllaw Llorweddol, Atal a Rheoli Llygredd Integredig (IPPC), Rhan 2 – Asesu a Rheoli Sŵn
15. ETSU-R-97 (2006): Asesu graddio sŵn o ffermydd gwynt

Codau Ymarfer gan gynnwys y canlynol:

- CY Rheoli Sŵn Amgylcheddol o Gyngherddau; Y Cyngor Sŵn 1999 (dan adolygiad)
- CY ar Sŵn o Awyrennau Ffug, DoE, 1982
- CY ar Reoli Sŵn o Dafarndai a Chlybiau IOA 2003
- Saethu Colomennod Clai – Canllaw ar reoli sŵn, CIEH 2003
- CY ar sŵn o chwaraeon beicio modur wedi'i drefnu, Cyngor Sŵn 1984
- CY ar Rasio Cychod Cyflym a Rasio Sgïo Dŵr, Ffederasiwn Sgïo Dŵr Prydain 1999
- CY Rheoli sŵn o Gylchoedd Radio Ceir Oval, NSCA 1996



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English